Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4

# Arfarniad o ddeunaw mis cyntaf y peilot i gyflwyno Cymwysterau Lefel Sylfaen a Chanolradd yng nghyfnod allweddol 4

Mai 2008



Iechyd ar Waith Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL INVESTOR IN PEOPLE

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| Diben | 1 |
| Cefndir | 1 |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **7** |
| **Sut mae ysgolion yn cyflwyno Bagloriaeth Cymru?** | **8** |
| Cynllunio'r cwricwlwm gyfer Bagloriaeth Cymru | 8 |
| Medrau allweddol | 10 |
| Cymru, Ewrop a'r Byd | 11 |
| Addysg sy'n gysylltiedig â gwaith | 12 |
| Addysg bersonol a chymdeithasol | 12 |
| Ymchwilio unigol | 13 |
| **Pa mor dda y mae ysgolion yn addysgu ac yn asesu Bagloriaeth Cymru?** | **14** |
| Addysgu | 14 |
| Asesu | 14 |
| **Pa mor dda y mae ysgolion yn cefnogi dysgwyr?** | **16** |
| **Pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr yn cyflwyno Bagloriaeth Cymru?** | **17** |
| **Pa mor dda y mae dysgwyr yn ei wneud?** | **19** |
| **Atodiadau** | |
| Cymhwyster Bagloriaeth Cymru | |
| Craidd Dysgu'r Llwybrau Dysgu 14-19 yng nghyfnod allweddol 4 | |

# Cyflwyniad

## Diben

1 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefelau Sylfaen a Chanolradd yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion yng Nghymru. Ei nod yw cynnig papur sefyllfa sy'n arfarnu prosiect peilot Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno Bagloriaeth Cymru yn y cyfnod allweddol hwn.

2 Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar ymweliadau â sampl o ysgolion uwchradd, a chyfweliadau â nhw, yn ystod hydref 2007 a gwanwyn 2008 i:

- drafod y rhaglen gyda dysgwyr, athrawon, cydlynwyr Bagloriaeth Cymru a phenaethiaid;
- craffu ar waith dysgwyr ac ar ddogfennau cynllunio athrawon; ac
- arsylwi ar wersi a gweithgareddau perthnasol.

3 Yn 2008-2009, bydd Estyn yn cynnal arolwg cysylltiedig o gyflwyno cymwysterau medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 4.

## Cefndir

4 Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru brosiect peilot ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefelau Uwch a Chanolradd yn 2003 ar gyfer dysgwyr ôl-16. Ym mis Hydref 2006, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y byddai Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefelau Uwch a Chanolradd ôl-16 yn cael ei gyflwyno fesul cam, wedi'i gynllunio, o fis Medi 2007. Erbyn Medi 2008, bydd 79 o ysgolion, 17 o sefydliadau addysg bellach a phum darparwr dysgu yn y gwaith ledled Cymru yn cymryd rhan. Mae hyn yn cynrychioli tua hanner yr ysgolion yng Nghymru sydd â chweched dosbarth a thua thri chwarter y sefydliadau addysg bellach.

5 Ym mis Medi 2006 cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru brosiect peilot ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefelau Canolradd a Sylfaen yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r 21 o ysgolion sy'n gysylltiedig wedi'u rhannu'n ddau grŵp gydag un grŵp yn dechrau addysgu Bagloriaeth Cymru ym mis Medi 2006 a'r grŵp arall yn dechrau ym mis Medi 2007. Mae'r cwrs yn cwmpasu dwy flynedd y cyfnod allweddol a disgwylir i'r peilot orffen ym mis Gorffennaf 2009.

6 Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi datblygu ochr yn ochr â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Lwybrau Dysgu 14-19. Mae'r polisi hwn yn mynd i'r afael â'r angen am ymagwedd fwy hyblyg a chytbwys at addysg myfyrwyr 14 i 19 mlwydd oed, gan ddatblygu ystod o fedrau perthnasol, a chynnig ystod ehangach o brofiadau a fydd yn ateb anghenion amrywiol pobl ifanc yng Nghymru.

7 Mae Diploma Bagloriaeth Cymru wedi'i gymeradwyo'n genedlaethol a chaiff ei gynnig ar lefelau Sylfaen (lefel 1), Canolradd (lefel 2) ac Uwch (lefel 3). CBAC yw'r bwrdd arholi ar gyfer y cymhwyster.

8 Mae rhaglen Bagloriaeth Cymru yn cynnwys **Astudiaethau Craidd** ac **Opsiynau**. Caiff cydrannau'r Astudiaethau Craidd eu rhannu'n 'elfennau' cyfansoddol pellach[1]. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r termau 'elfennau' a 'chydrannau' yn y modd a ddangosir isod yn yr adroddiad am 'Astudiaethau Craidd'.

| **Astudiaethau Craidd** | **Opsiynau** |
|---|---|
| Pedair cydran:<br>• medrau allweddol;<br>• Cymru, Ewrop a'r Byd (pedair elfen a modiwl iaith);<br>• addysg sy'n gysylltiedig â gwaith (gweithio gyda chyflogwr a gweithgaredd menter tîm); ac<br>• addysg bersonol a chymdeithasol (pum elfen).<br>Rhaid i'r dysgwr hefyd gwblhau **Ymchwiliad Unigol** ar lefel briodol. | Cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau allanol y cymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru ar y lefel briodol, er enghraifft TGAU, UG neu Safon Uwch, CGC, neu BTEC |

9 Gall dysgwyr gael **Tystysgrif Graidd** Cymhwyster Bagloriaeth Cymru drwy gyflawni gofynion yr Astudiaethau Craidd. Mae'r dystysgrif graidd yn cyfrannu at y sgôr pwyntiau ehangach a ddangosir ar ffurflen RE2 ysgolion[2]. Ar lefel Ganolradd, mae hon gwerth 152.5 o bwyntiau sy'n cynnwys 106.5 o bwyntiau ar gyfer gofynion medrau allweddol gofynnol y craidd Canolradd. Mae hyn cyfwerth â thua thair gradd A mewn TGAU. Ar lefel Sylfaen, mae'n werth 100 o bwyntiau, gan gynnwys 75 pwynt ar gyfer gofynion medrau allweddol gofynnol y craidd Sylfaen. Mae hyn cyfwerth â thua thair gradd D mewn TGAU. Fodd bynnag, nid yw'r dystysgrif graidd ar hyn o bryd yn cyfrannu at y dangosydd Trothwy Lefel 1 na Lefel 2[3] nac i ddangosyddion pennawd fel y pump TGAU neu fwy neu gyfwerth ar raddau A* i C neu A* i G.

10 Dyfernir **Diploma Bagloriaeth Cymru** i ymgeiswyr sy'n cael y Dystysgrif Graidd a'r cymwysterau opsiwn ar y lefel briodol. Er enghraifft, dyfernir Diploma Sylfaen lefel 1

[1] Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o fanylion am strwythur Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.
[2] Mae ffurflen RE2 yn cynnwys gwybodaeth arholi cryno, yn benodol i bob ysgol, a luniwyd gan CBAC ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.
[3] Caiff y dangosydd Trothwy Lefel 2 ei ddangos ar y ffurflen RE2 ar gyfer 2007 fel dangosydd peilot gyda'r bwriad y caiff ei roi ar waith o 2008. Mae'r dangosydd Trothwy Lefel 2 yn fesur o nifer y cymwysterau ar lefel 2 sydd cyfwerth â 5 TGAU gradd A* i C.

Bagloriaeth Cymru i ymgeiswyr sy'n cael y Dystysgrif Sylfaen Graidd, ynghyd â CGC lefel 1 neu gyfwerth, neu o leiaf pedair gradd D i G mewn TGAU, neu eu cyfwerth.

11 Rhaid i bob dysgwr yng nghyfnod allweddol 4 ddilyn rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Saesneg, Cymraeg (lle bo'n briodol), mathemateg, gwyddoniaeth ac addysg gorfforol. Yn ogystal â'r pynciau hyn, rhaid iddynt hefyd ddilyn y cwricwlwm sylfaen sy'n cynnwys addysg grefyddol, addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, addysg ac arweiniad gyrfaoedd, addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg rhyw.

12 Un o chwe elfen y Llwybrau Dysgu 14-19 yw'r Craidd Dysgu. Mae hwn yn pennu'r medrau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr agweddau a'r gwerthoedd, a'r profiadau cyffredin ar gyfer pob dysgwr, ni waeth beth fo'r opsiynau a ddewiswyd ganddynt fel rhan o'u Llwybr Dysgu. Mae mwy o wybodaeth am y Craidd Dysgu yng nghyfnod allweddol 4 i'w weld yn Atodiad 2.

13 Mae 21 o ysgolion yn addysgu Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 fel rhan o'r peilot. Dechreuodd 10 ym mis Medi 2006 a'r gweddill ym mis Medi 2007. O'r 21 o ysgolion, roedd 11 yn gysylltiedig â'r prosiect peilot lefel Uwch a Chanolradd ôl-16 ac ymunodd pedwar arall â'r rhaglen dreigl lefel Uwch a Chanolradd ym mis Medi 2007. Nid yw'r saith ysgol sy'n weddill yn cymryd rhan yn y rhaglen dreigl Uwch a Chanolradd.

14 O'r 21 o ysgolion sy'n gysylltiedig â rhaglen Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4:

- mae chwe ysgol yn addysgu'r rhaglen i bob dysgwr cyfnod allweddol 4 ar lefelau Sylfaen neu Ganolradd;
- mae wyth ysgol yn addysgu'r rhaglen ar lefelau Sylfaen a Chanolradd i nifer dethol o ddysgwyr, gyda'r niferoedd yn amrywio o 19 o ddysgwyr mewn un ysgol i 100 mewn un arall; ac
- mae saith ysgol yn addysgu'r rhaglen i grŵp dethol o ddysgwyr ar lefel Sylfaen yn unig, gyda'r niferoedd yn amrywio o 12 mewn un ysgol i 103 mewn un arall.

15 Mae bron i dri chwarter y dysgwyr ar draws yr holl ysgolion peilot yn dilyn y cymhwyster Canolradd. At ei gilydd, mae tua 2,300 o ddysgwyr yn dilyn y rhaglen yng nghyfnod allweddol 4, gan gynrychioli tua 2% o'r holl ddysgwyr yn y cyfnod allweddol hwn.

## Prif ganfyddiadau

### Cyflwyno Bagloriaeth Cymru

16 Mae ysgolion sy'n cyflwyno Bagloriaeth Cymru ôl-16 yn ystyried bod ei chyflwyno yng nghyfnod allweddol 4 yn llawer llai cymhleth nag adeg ôl-16. Mae'r ysgolion sy'n addysgu Bagloriaeth Cymru i'r holl ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 yn ei chael yn symlach na'r ysgolion hynny sy'n ei haddysgu i grwpiau dethol ac, yn gyffredinol, cânt fwy o lwyddiant wrth gynllunio oherwydd gallant wneud hynny ar draws y garfan gyfan.

17 Mae llawer o ysgolion yn dilyn yr un patrwm sylfaenol yn ei hanfod ar gyfer cyflwyno rhan Astudiaethau Craidd Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4:

- caiff y prif gynnwys ei addysgu mewn gwersi yn yr amserlen sydd fel arfer yn cael eu dyrannu i addysg bersonol a chymdeithasol, addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, ac addysg ac arweiniad gyrfaoedd;

- caiff hyn ei ategu gan gyfnod tiwtor – cyfnod cofrestru estynedig fel arfer, ond weithiau defnyddir gwersi ychwanegol yn yr amserlen neu ddigwyddiadau undydd arbennig hefyd; ac

- mae'r cynnwys yn cael ei gyflwyno'n bennaf gan dîm penodedig o athrawon 'arbenigol' yn hytrach na thiwtoriaid dosbarth.

18 Mae'r ysgolion lle mae'r cynllunio ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn effeithiol yn ystyried bod y rhaglen yn fodd o fodloni gofynion eraill y cwricwlwm, fel gofynion y Craidd Dysgu 14-19, yn hytrach na'i bod yn faich ychwanegol. Maent wedi dadansoddi'r hyn a wneir ganddynt eisoes a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i fodloni galwadau'r rhaglen, yn ofalus. Yn yr ysgolion hyn, mae dysgwyr yn ystyried bod y rhaglen yn rhan arferol o'u cwricwlwm.

19 Er bod y cymhwyster wedi'i gynnwys yn y sgôr pwyntiau ehangach, mae'r ffaith nad yw'n cyfrannu at ddangosyddion perfformiad pennawd fel pump TGAU neu fwy graddau A* i C yn rhwystr mawr rhag ei ehangu yng nghyfnod allweddol 4.

20 Mae cydlyniad a threfn y gydran medrau allweddol yn hanfodol i gyflwyno Bagloriaeth Cymru yn llwyddiannus. Mae cyflwyno'n llwyddiannus wedi'i seilio bob amser ar fapio gofalus i wirio bod sylw llawn yn cael ei roi i'r medrau allweddol a monitro dyfal i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno.

21 Mae llawer o ysgolion yn cyflwyno'r rhan fwyaf o'r medrau allweddol cyfathrebu a chymhwyso rhif drwy waith pwnc Saesneg neu Gymraeg a mathemateg yn y drefn honno. Caiff y ddarpariaeth hon ei hategu gan waith mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn datblygu trefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio, cydlynu ac asesu portffolios yn y medrau allweddol hyn. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cyflwyno'r rhan fwyaf o'r medr allweddol technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) drwy dechnoleg gwybodaeth (TG) fel pwnc ac yn manteisio ar yr

eithriad sy'n caniatáu cyflawni TGAU neu gyfwerth mewn TG i fod yn ddirprwy ar gyfer y cymhwyster medr allweddol.

22 Mae llawer o ysgolion yn cynllunio'n dda ar gyfer cyflwyno'r medrau allweddol ehangach datrys problemau, gweithio gydag eraill a gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun. Yn yr ysgolion gorau, mae'r gwaith ar gyfer y medrau allweddol hyn yn cael ei gydlynu a'i fonitro'n ofalus.

23 Mae ysgolion yn ei chael yn hawdd cynnwys Cymru, Ewrop a'r Byd ac addysg bersonol a chymdeithasol yn eu strwythurau cwricwlwm presennol yng nghyfnod allweddol 4, gyda rhai mân addasiadau. Mae'r holl ysgolion yn cyflwyno'r modiwl iaith drwy eu darpariaeth bresennol, yn bennaf mewn Cymraeg, neu mewn rhai enghreifftiau, mewn ieithoedd tramor modern. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn ymdrin â Chymru, Ewrop a'r Byd ac addysg bersonol a chymdeithasol yn dda, er nad yw'r elfen cyfranogiad cymunedol yn cael ei thrafod yn llawn ym mhob ysgol.

24 Mewn addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, mae ysgolion eisoes yn meddu ar y mecanwaith i gyflwyno'r elfen gweithio gyda chyflogwyr drwy eu darpariaeth bresennol ar gyfer profiad gwaith a gweithgareddau cysylltiedig. Mae'r gweithgaredd menter wedi'i seilio naill ai ar uned bwrpasol o waith yn y gwersi Bagloriaeth Cymru sydd yn yr amserlen neu caiff ei gyflwyno ar ddiwrnod penodol, fel 'diwrnod menter' neu 'ddiwrnod diwydiant'.

25 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cysylltu'r ymchwiliad unigol â gwaith a wneir yn yr Astudiaethau Craidd, yn enwedig gwaith ar Gymru, Ewrop a'r Byd.

### Addysgu, asesu a chefnogaeth i ddysgwyr

26 Yn y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg, mae addysgu Bagloriaeth Cymru yn dda ar y cyfan, ond dim ond mewn ychydig o'r dosbarthiadau, lle mae lefelau 1 a 2 yn gymysg, y mae athrawon yn cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion dysgwyr o wahanol alluoedd.

27 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dyfeisio systemau priodol ar gyfer monitro ac olrhain cynnydd dysgwyr drwy raglen y Fagloriaeth. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ysgolion yn y cam hwn sy'n meddu ar systemau effeithiol i sicrhau bod safon y gwaith ar gyfer elfen benodol o'r cymhwyster yn briodol i'w lefel. Mae rhywfaint o amrywiaeth yn arferion cymedrolwyr ymweliadol CBAC.

28 Yn gyffredinol, mae cefnogaeth unigol i ddysgwyr sy'n dilyn Bagloriaeth Cymru yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael cyngor, arweiniad a chefnogaeth defnyddiol. Fodd bynnag, mae amrywiaeth sylweddol yn y ffordd y mae ysgolion yn trefnu'r system tiwtorial personol yng nghyfnod allweddol 4. Mae grwpiau tiwtor yn rhy fawr i fod yn effeithiol mewn ychydig o ysgolion.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

29 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rheoli cyflwyno Bagloriaeth Cymru yn dda. Fodd bynnag, yn y cam hwn, dim ond ychydig o ysgolion sydd wedi gosod targedau clir ar gyfer cyrhaeddiad disgyblion yn y cymhwyster. Yn gyffredinol, lle bo gan ysgol nifer

fawr o ddysgwyr yn ymgymryd â'r rhaglen, mae gan y pennaeth, yr uwch reolwyr a'r corff llywodraethol gysylltiad agos â'i chyflwyno. Mae gan lawer o ysgolion uwch aelod o staff sy'n gyfrifol am gydlynu gwaith y tîm o athrawon sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglen. Pan mai dyma'r achos, a phan fo timau'n cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio ac i addasu'r ddarpariaeth, mae Bagloriaeth Cymru yn fwy tebygol o lwyddo.

30 Mewn ychydig o ysgolion, nid oes cyfarfodydd cynllunio ac arfarnu rheolaidd wedi'u hamserlennu ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Mae'r diffyg cydlynu ac arfarnu systematig hwn wedi cael effaith negyddol ar ansawdd y ddarpariaeth.

31 Mae'r arian y mae ysgolion yn ei gael i gyflwyno Bagloriaeth Cymru yn cael ei ddefnyddio'n dda at ei gilydd, ond mae ysgolion yn pryderu am eu gallu i gynnal y rhaglen pan fydd y cyllid ychwanegol yn dod i ben. Prin yw'r ysgolion sydd wedi arfarnu'r costau eraill sy'n gysylltiedig â chyflwyno Bagloriaeth Cymru yn fanwl.

## Canlyniadau a chyflawniadau dysgwyr

32 Mae Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 yng nghyfnod cynnar ei datblygiad ac ni fydd y grŵp cyntaf o ddysgwyr yn cwblhau'r cwrs nes diwedd blwyddyn academaidd 2007-2008. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ganlyniadau i ddangos cyraeddiadau dysgwyr.

33 Yn y dosbarthiadau yr arsylwyd arnynt yn ystod yr ymweliadau ag ysgolion, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni safonau da at ei gilydd yn y gwaith y maent yn ei gynhyrchu. Maent yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau allweddol cyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh ar gyfer eu lefel astudio. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn cyflawni safonau da mewn addysg bersonol a chymdeithasol ac yn eu gwaith ar Gymru, Ewrop a'r Byd.

34 Mewn addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n effeithiol gyda chyflogwyr ac mae llawer hefyd yn cyfrannu'n dda at y gweithgaredd menter tîm. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw gwaith dysgwyr ar y gweithgaredd menter tîm cystal â'u gwaith gyda chyflogwr.

35 Mae'r dysgwyr hynny sydd wedi cwblhau eu hymchwiliad unigol wedi cynhyrchu gwaith o safon dda. Mae bron pob ysgol yn cynhyrchu'r ymchwiliad unigol ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn unig ac nid ydynt yn defnyddio gwaith cwrs sydd wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer arholiadau eraill fel TGAU. Fodd bynnag, mae rhai ymchwiliadau wedi'u seilio'n rhy agos ar waith cwrs a gynhyrchwyd mewn pynciau TGAU fel gwyddoniaeth.

## Argymhellion

36 Er mwyn rhoi Bagloriaeth Cymru ar waith ymhellach yng nghyfnod allweddol 4:

**dylai ysgolion:**

A1 sicrhau bod uwch reolwyr yn chwarae rôl arweiniol wrth arwain a chydlynu datblygiad y rhaglen yn eu hysgolion;

A2 rhoi digon o amser cynllunio ac arfarnu i'r tîm sy'n cyflwyno'r rhaglen;

A3 sefydlu systemau hylaw i gymedroli'r safonau sy'n cael eu cyflawni at ddibenion asesu;

A4 sefydlu systemau cynhwysfawr ac ymarferol i gynllunio, mapio a monitro cyflwyno medrau allweddol; a

A5 threfnu grwpiau tiwtor o faint rhesymol fel bod tiwtoriaid personol yn gallu cyflawni eu rôl; a

**dylai CBAC:**

A6 roi mwy o arweiniad a hyfforddiant i athrawon ar y safonau gwaith a ddisgwylir ar lefelau 1 a 2; a

A7 pharhau â gwaith i wella dibynadwyedd a chysondeb asesiadau ar bob lefel drwy drefniadau cymedroli gwell.

## Sut mae ysgolion yn cyflwyno Bagloriaeth Cymru?

### Cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Bagloriaeth Cymru

37 Mae ysgolion sy'n cyflwyno Bagloriaeth Cymru i bob dysgwr, a'r lleiafrif o ysgolion sy'n ei chyflwyno i nifer dethol o ddysgwyr yn unig, yn dilyn yr un patrwm cyflwyno sylfaenol yn ei hanfod. Mae gan y patrwm dair prif nodwedd:

- y prif gynnwys, sy'n cael ei addysgu mewn gwersi yn yr amserlen sydd fel arfer yn cael eu dyrannu i addysg bersonol a chymdeithasol, addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, ac addysg ac arweiniad gyrfaoedd;

- cyfnod tiwtor, sydd fel arfer yn gyfnod cofrestru estynedig, ond a all gynnwys gwersi ychwanegol yn yr amserlen neu ddigwyddiadau undydd arbennig; a

- chyflwyno a wneir yn bennaf gan dîm penodedig o athrawon 'arbenigol' yn hytrach na chan diwtoriaid dosbarth.

38 O ganlyniad i'r patrwm hwn, nid yw cyflwyno Bagloriaeth Cymru yn yr ysgolion hyn yn effeithio ar eu cynlluniau opsiynau.

39 Mae ysgolion yn ystyried bod gofynion Bagloriaeth Cymru yn gweddu'n agos i'r gofynion statudol ar gyfer cyfnod allweddol 4, yn enwedig y rheiny ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, addysg sy'n gysylltiedig â gwaith ac addysg ac arweiniad gyrfaoedd a phynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Gwelant hefyd eu bod yn gweddu'n agos i ofynion a gwelliannau gofynnol y Craidd Dysgu[4] yn Llwybrau Dysgu 14-19 ac maent yn defnyddio Bagloriaeth Cymru fel mecanwaith ar gyfer cyflwyno'r Craidd Dysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn wedi mapio gofynion y rhaglen, y gofynion statudol ar gyfer cyfnod allweddol 4 a'r Craidd Dysgu yn ofalus, ac wedi cynllunio rhaglen sy'n bodloni pob un o'r rhain. Er enghraifft, mae un ysgol wedi dyfeisio cynllun gwaith sy'n cynnwys unedau gwaith ar:

- iechyd a pherthynas;

- datblygiad moesol ac ysbrydol;

- dinasyddiaeth weithgar;

- ymwybyddiaeth amgylcheddol;

- dysgu gydol oes; ac

- ymwybyddiaeth leol a byd-eang ym Mlwyddyn 10 a chyfranogiad cymunedol ym Mlwyddyn 11.

---

[4] Gweler Atodiad 2 am fanylion y Craidd Dysgu yn Llwybrau Dysgu 14-19.

40 Mae ysgolion sydd â phrofiad o gyflwyno'r rhaglen adeg ôl-16 yn ystyried bod ei chyflwyno yng nghyfnod allweddol 4 yn llawer symlach na'i chyflwyno adeg ôl-16. Mae hyn oherwydd bod cwricwlwm cyfnod allweddol 4 eisoes wedi'i gynllunio gydag amser penodedig ar gyfer cyflwyno profiadau cyffredin i'r garfan gyfan. Gall y gofynion ar gyfer Bagloriaeth Cymru weddu i'r amser penodedig hwn heb unrhyw effaith uniongyrchol ar opsiynau neu gynlluniau opsiwn. Mae pob ysgol eisoes yn:

- addysgu addysg bersonol a chymdeithasol, addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, addysg ac arweiniad gyrfaoedd, TGCh ac iaith;
- cynnwys gwers yn yr amserlen sydd ar gael ar gyfer addysgu'r rhan fwyaf o'r rhain;
- defnyddio system diwtor; ac
- yn ceisio bodloni gofynion statudol ac yn bwriadu cyflwyno Craidd Dysgu'r Llwybrau Dysgu 14-19.

41 Mae'r patrwm sylfaenol hwn hefyd yn cael ei ategu gan ddefnyddio amser arall y cwricwlwm. Mae hyn yn bennaf yn ymwneud â phynciau gorfodol fel Cymraeg neu Saesneg i ategu addysgu cyfathrebu a mathemateg i ategu addysgu cymhwyso rhif. Yn ogystal, caiff TG neu Gymraeg fel ail iaith gorfodol eu defnyddio i addysgu'r gydran TGCh a'r modiwl iaith yn y drefn honno. Y tu hwnt i'r cyfraniadau cyffredin hyn, mae pynciau eraill yn gwneud cyfraniad hefyd. Er enghraifft, mewn un ysgol caiff y medr allweddol gweithio gydag eraill ei addysgu mewn gwersi gwyddoniaeth.

42 Mae ysgolion sy'n addysgu Bagloriaeth Cymru i'r garfan gyfan fel arfer yn addysgu'r holl ddysgwyr mewn grwpiau gallu cymysg ac nid ydynt yn penderfynu pwy fydd yn sefyll dyfarniadau Sylfaen neu Ganolradd nes bod ganddynt syniad clir o botensial dysgwyr.

43 Lle bo amrywiadau i'r model cyflwyno sylfaenol hwn, maent yn yr ysgolion sydd ar hyn o bryd yn addysgu Bagloriaeth Cymru i nifer dethol o ddysgwyr. Yn yr achosion hyn, mae'r ysgol yn parhau i ddefnyddio'r wers yn yr amserlen ar gyfer yr holl ddysgwyr at ddiben addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, ond mae hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddewis Bagloriaeth Cymru yn eu dewisiadau opsiwn. Yn y modelau hyn, mae dysgwyr fel arfer yn ymgymryd â Bagloriaeth Cymru ochr yn ochr â chwrs arall yn y cynllun opsiynau, er enghraifft fel rhan o'r cwricwlwm TGAU addysg gorfforol neu o gwrs BTEC. Yn yr ysgolion hynny sy'n cynnig y rhaglen ar lefel Sylfaen yn unig, dim ond i'r dysgwyr llai galluog neu i ddysgwyr sydd wedi dadrithio y caiff ei chynnig fel opsiwn ei hun neu fel rhan o raglen gyfan sydd wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer y dysgwyr hyn. Mae'r rhaglen weithiau'n cynnwys lleoliadau gwaith.

44 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cyflwyno Bagloriaeth Cymru i nifer dethol yn bwriadu ei chyflwyno i'r holl ddysgwyr. Maent yn defnyddio'u profiadau o addysgu Bagloriaeth Cymru i'r grwpiau hyn fel mecanwaith ar gyfer rhoi cynnig ar drefniadau cyn ei chyflwyno i bob dysgwr. Mae rhai ysgolion sy'n ei chynnig ar lefel Sylfaen yn unig yn ystyried bod y rhaglen yn gyfrwng addas ar gyfer darparu ystod o gyrsiau i'r

grŵp hwn o ddysgwyr. Nid yw llawer o'r ysgolion hyn eto wedi penderfynu p'un ai i gynnig Bagloriaeth Cymru i bob dysgwr yn y cyfnod allweddol.

45 Lle bo cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn effeithiol:

- mae rheolwyr yn ystyried bod Bagloriaeth Cymru yn ddull effeithiol o fodloni gofynion cwricwlaidd, fel y cwricwlwm sylfaenol a'r Craidd Dysgu, ac nid ydynt yn ei hystyried yn faich ychwanegol;

- ceir dadansoddiad gofalus o'r hyn y mae'r ysgol eisoes yn ei wneud a beth y mae angen iddi ei wneud i fodloni galwadau'r rhaglen; ac

- mae dysgwyr yn ystyried bod Bagloriaeth Cymru yn rhan arferol o'u cwricwlwm.

46 Er bod Bagloriaeth Cymru yn cyfrannu at y sgôr pwyntiau ehangach a ddangosir ar y ffurflen RE2, mae ysgolion yn pryderu na fydd yn ymddangos mewn dangosyddion perfformiad pennawd fel y Dangosydd Trothwy Lefel 2 neu bump TGAU neu fwy graddau A* i C. Y dangosyddion diwethaf hyn yw'r rhai sy'n denu'r sylw mwyaf gan rieni a'r cyfryngau, ac mae'r ffaith nad yw'r cymhwyster yn cyfrif tuag atynt yn faen tramgwydd mawr i'w hehangu ymhellach yng nghyfnod allweddol 4.

## Medrau allweddol

47 Mae bron yr holl ysgolion sy'n cyflwyno Bagloriaeth Cymru i'r garfan gyfan a llawer o'r rheiny sy'n ei chyflwyno i grwpiau dethol yn defnyddio gwersi Cymraeg neu Saesneg a gwersi mathemateg i gyflwyno'r rhan fwyaf o'r medrau allweddol cyfathrebu a chymhwyso rhif yn y drefn honno. Yn y pynciau hyn, mae athrawon yn gwneud rhai addasiadau i'w rhaglen addysgu er mwyn darparu am alwadau'r cymhwyster medrau allweddol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn golygu cynllunio tasg neu gyfres o dasgau penodol. Mae'r ysgolion hyn yn gwneud i'r adrannau Cymraeg neu Saesneg a mathemateg fod yn gyfrifol am gyflwyno ac asesu'r ddau brif gwrs medrau allweddol. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, rhoddir cyfrifoldebau addysgu a dysgu i aelodau o'r adrannau hyn yn benodol ar gyfer y gwaith hwn.

48 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gwaith ar gyfathrebu a chymhwyso rhif yn cael ei ategu ymhellach gan waith mewn rhannau eraill o'r cwricwlwm. Er enghraifft, ar gyfer y medr allweddol cyfathrebu, gall cyfraniadau ddod oddi wrth addysg gyrfaoedd ac addysg grefyddol neu hanes. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb am gynllunio, cydlynu ac asesu'n parhau gyda'r cydlynydd ar gyfer y medr allweddol, sef, yn gyffredinol, yr athro Cymraeg, Saesneg neu fathemateg perthnasol.

49 Mewn rhai o'r ysgolion sy'n cyflwyno Bagloriaeth Cymru i grŵp dethol, caiff addysgu cyfathrebu a chymhwyso rhif ei gyflawni gan y tîm sy'n addysgu'r rhaglen, er enghraifft naill ai fel agwedd yn yr amser cwricwlwm cyffredin a ddarperir ar gyfer pob dysgwr neu yn yr opsiwn penodol a ddewiswyd gan ddysgwyr.

50 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn addysgu TGCh drwy eu darpariaeth TG i bob dysgwr ac maent yn manteisio ar yr eithriad sy'n caniatáu i gyflawni TGAU neu gyfwerth mewn TG fod yn ddirprwy ar gyfer y medr allweddol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion

hefyd yn ategu'r ddarpariaeth hon gyda gwaith pellach ar draws y cwricwlwm, ond ni chaiff hyn ei fonitro na'i olrhain cystal ag y gwneir ar gyfer cyfathrebu a chymhwyso rhif.

51 Mae ychydig o ysgolion yn cynnig medrau allweddol cyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh ym Mlwyddyn 9 ac maent yn cyflwyno dysgwyr ar gyfer y cymhwyster lefel 1 ar ddiwedd y flwyddyn honno. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yna'n symud ymlaen i'r cymhwyster lefel 2 yng nghyfnod allweddol 4. Mae hon yn strategaeth effeithiol.

52 Mae llawer o ysgolion hefyd yn cynllunio'n dda ar gyfer cyflwyno medrau allweddol ehangach datrys problemau, gweithio gydag eraill a gwella'ch perfformiad a'ch dysgu eich hun. Yn yr achosion gorau, mae'r gwaith ar gyfer y medrau hyn yn cael ei gydlynu a'i fonitro'n ofalus.

53 Mae datrys problemau mewn rhai ysgolion yn cael ei ddyrannu i'r adran wyddoniaeth er mwyn manteisio ar waith dysgwyr wrth ymchwilio gwyddoniaeth. Mae hyn o fantais i'r graddau bod pob dysgwr yn ymgymryd ag ef, gan fod gwyddoniaeth yn bwnc craidd yng nghyfnod allweddol 4. Mewn ysgolion eraill, caiff ei ddyrannu i adrannau eraill, er enghraifft i addysg gorfforol neu i Gymraeg fel ail iaith, neu i weithgareddau fel profiad gwaith lle mae'n rhaid i ddysgwyr wneud ymchwil i leoliadau a dod o hyd i'w lleoliadau eu hunain. Mae'r rhannau hyn o'r cwricwlwm hefyd yn gyffredin i'r garfan cyfnod allweddol 4 gyfan.

54 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio gweithgareddau penodol i gyflwyno'r medr allweddol gweithio gydag eraill. Er enghraifft, mae llawer o ysgolion yn defnyddio'r gweithgaredd menter tîm yng nghydran addysg gysylltiedig â gwaith Bagloriaeth Cymru, tra bod eraill yn manteisio ar gynhyrchu cyflwyniadau grŵp fel rhan o'r elfen cyfranogiad cymdeithasol o addysg bersonol a chymdeithasol.

55 Mae bron pob ysgol yn cynllunio cyflwyno'r medr allweddol gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun drwy'r system tiwtor personol, yn aml mewn cyfnodau cofrestru estynedig lle byddant yn canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau dysgu unigol y dysgwyr.

56 Tra bod cynllunio ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau ar Fagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 yn gymharol syml, mae cydlynu a threfnu'r gydran medrau allweddol yn hanfodol i'w chyflwyno'n llwyddiannus. Mae cydrannau cynnwys Astudiaethau Craidd y Rhaglen yn paru â llawer o ofynion sydd eisoes yn bodoli, er enghraifft, y rheiny ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, addysg sy'n gysylltiedig â gwaith ac addysg ac arweiniad gyrfaoedd, ond yn aml, mae'r rheiny ar gyfer cyflwyno medrau allweddol yn gofyn am addasiadau i raglenni sydd eisoes yn bodoli mewn pynciau fel Cymraeg, Saesneg a mathemateg. Mae cyflwyno llwyddiannus wedi'i seilio bob amser ar fapio gofalus i wirio bod trafodaeth lawn o'r medrau allweddol a monitro dyfal i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno.

## Cymru, Ewrop a'r Byd

57 Mae ysgolion yn cynnwys Cymru, Ewrop a'r Byd yn hwylus oddi mewn i'w strwythurau cwricwlwm presennol yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gwneud hyn yn un o brif ganolbwyntiau gwers benodedig yn yr amserlen

wythnosol, ynghyd ag addysg bersonol a chymdeithasol. Fel arfer, byddant yn ei ategu ag ymweliadau a siaradwyr ymweliadol, ac yn aml yn ei gysylltu â'r ymchwiliad unigol.

58 Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff y gydran hon ei haddysgu gan y tîm Bagloriaeth Cymru, ond mewn ychydig o ysgolion caiff ei addysgu gan athrawon arbenigol eraill fel y rheiny yn yr adrannau Cymraeg a daearyddiaeth.

59 Mewn ychydig o ysgolion, lle mae grwpiau dethol yn unig yn dilyn Bagloriaeth Cymru, caiff y gydran ei haddysgu yn y gwersi penodol a ddyrennir i Fagloriaeth Cymru. Er enghraifft, mae hyn yn digwydd mewn gwersi addysg gorfforol yn yr un ysgol lle caiff y gydran ei chyflwyno yn y pwnc dewisol hwn.

60 Mae'r holl ysgolion yn cyflwyno'r modiwl iaith drwy eu darpariaeth bresennol ar gyfer y Gymraeg neu Gymraeg fel ail iaith ac, mewn rhai enghreifftiau, ieithoedd tramor modern. Yn yr un modd â TGCh, mae ysgolion yn hawlio gwaith yn yr ieithoedd hyn fel dirprwy ar gyfer y modiwl iaith.

## Addysg sy'n gysylltiedig â gwaith

61 Mae ysgolion eisoes yn meddu ar y mecanwaith i gyflwyno'r elfen gweithio gyda chyflogwyr drwy eu darpariaeth ar gyfer profiad gwaith a gweithgareddau cysylltiedig. Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond ychydig o fân addasiadau yr oedd eu hangen i sicrhau bod holl ofynion Bagloriaeth Cymru wedi cael eu bodloni, er enghraifft wrth fodloni'r angen i ymchwilio i'r cyfleoedd gwaith yn ardal y dysgwyr. Darparwyd yr agweddau ychwanegol drwy'r wers unigol sydd fel arfer wedi'i chlustnodi ar yr amserlen.

62 Mae'r gweithgaredd menter tîm yn seiliedig naill ai ar uned benodedig o waith yng ngwersi Bagloriaeth Cymru yn yr amserlen neu drwy ddiwrnod penodol, fel 'diwrnod menter' neu 'ddiwrnod diwydiant'. Mewn rhai enghreifftiau, mae ysgolion yn cyfuno'r ddau ddull. Mae'r enghreifftiau mwyaf llwyddiannus wedi'u seilio ar uned o waith fel bod dysgwyr wedi cael digon o amser i weithio ar brosiect yn fanwl. Er enghraifft, mewn un ysgol, trefnodd dysgwyr ffair Nadolig ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8. Mewn achosion fel y rhain, mae'r gweithgaredd mwy sylweddol yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr hefyd ddatblygu'r medrau allweddol gweithio gydag eraill a datrys problemau.

## Addysg bersonol a chymdeithasol

63 Ynghyd â'r gydran ar Gymru, Ewrop a'r Byd, dyma'r gydran symlaf i'w chyflwyno. Mae gan yr holl ysgolion wers(i) sydd eisoes yn amserlen eu cwricwlwm cyffredin ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol i bob disgybl ac felly, pan fydd ysgolion wedi paru gofynion Bagloriaeth Cymru â gofynion y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol, maent yn cyflwyno'r gydran yn y modd hwn.

64 At ei gilydd, mae ysgolion yn ymdrin â'r elfennau'n dda, er nad yw'r elfen cyfranogiad cymunedol yn cael ei thrafod yn llawn ym mhob ysgol. Mae'r ysgolion sy'n ymdopi'n llwyddiannus â'r gofynion hyn yn defnyddio'r gweithgaredd i gynnig cyfleoedd pellach i addysgu'r medrau allweddol gweithio gydag eraill a datrys problemau.

## Ymchwilio unigol

65 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cysylltu'r ymchwilio unigol â'r gwaith a wneir yn y wers(gwersi) yn yr amserlen ar gyfer yr Astudiaethau Craidd, yn enwedig â'r gwaith ar Gymru, Ewrop a'r Byd. Ym mron pob ysgol, ceir nifer benodedig o wersi sy'n caniatáu i ddysgwyr gwblhau'r ymchwiliad yn y dosbarth. Mae un ysgol yn trefnu bod pob pwnc, boed yn y cwricwlwm cyffredin i bob dysgwr neu yn yr opsiynau, yn cynnig nifer o deitlau i ddysgwyr ddewis ohonynt. Mae'n trefnu hyn yn ofalus drwy gynnig templed i bob pwnc gyflwyno'i gynnig a thrwy fonitro dewis dysgwyr o bwnc a'u cynnydd wrth ei gwblhau. Mewn ysgol arall, mae athrawon sy'n cyflwyno Bagloriaeth Cymru i grŵp o ddisgyblion llai galluog ac wedi'u dadrithio o bosibl, yn cael cyflwyno'r gydran hon yn anodd, yn bennaf oherwydd na roddir digon o amser i ddysgwyr gwblhau'r ymchwiliad.

66 Mae bron pob ysgol yn cynhyrchu'r ymchwiliad unigol ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn unig ac nid ydynt yn defnyddio gwaith cwrs sydd wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer arholiadau eraill fel TGAU. Fodd bynnag, mae eithriadau lle mae ysgol yn addysgu Bagloriaeth Cymru fel rhan o bwnc dewisol i nifer gyfyngedig o ddysgwyr. Mae'r arfer hwn yn dderbyniol cyhyd ag y bo'r meini prawf gwahanol ar gyfer TGAU a Bagloriaeth Cymru yn cael eu bodloni. Mae modd gwneud hyn mewn rhai pynciau, er enghraifft mewn daearyddiaeth neu gymdeithaseg, ond yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n anodd ei gyflawni.

# Pa mor dda y mae ysgolion yn addysgu ac yn asesu Bagloriaeth Cymru?

## Addysgu

67 Yn y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg, mae addysgu Bagloriaeth Cymru yn dda. Caiff sesiynau eu cynllunio'n effeithiol gan mwyaf, ac mae athrawon yn aml yn datblygu gweithgareddau arloesol a diddorol i ddysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o athrawon sy'n gysylltiedig ag addysgu'r rhaglen yn gwybod llawer am ei galwadau, ac maent yn ymroddedig ac yn frwdfrydig.

68 Mae llawer o enghreifftiau o ddulliau arloesol. Mae athrawon yn cyflwyno strategaethau a gweithgareddau nad ydynt wedi'u defnyddio o'r blaen, gan gynnwys mwy o waith grŵp, mwy o ddefnydd o TGCh, ymweliadau â mannau o ddiddordeb, a defnyddio cymharu a chyferbynnu i atgyfnerthu dysgu. Mae ymweliadau â mannau fel adeilad y Senedd a Senedd San Steffan yn aml yn cael eu defnyddio i addysgu disgyblion am y broses ddemocrataidd. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn trefnu siaradwyr ymweliadol symbylol ar gyfer agweddau ar yr Astudiaethau Craidd.

69 Mae athrawon yn cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr o alluoedd gwahanol, ond mewn rhai o achosion nid yw athrawon yn cael digon o arweiniad gan reolwyr ar addasrwydd y deunyddiau y maent yn eu paratoi ar gyfer dysgwyr ac maent yn methu â chynhyrchu deunyddiau sy'n ennyn sylw dysgwyr yn llawn.

70 Lle bo disgyblion llai galluog sy'n anelu at gwblhau'r cymhwyster lefel Sylfaen yn mynychu sesiynau cyffredin gyda disgyblion sy'n anelu at y cymhwyster lefel Canolradd, nid oes digon o wahaniaethu mewn tasgau a gweithgareddau i gynnal eu diddordeb a'u symbyliad.

## Asesu

71 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dyfeisio systemau priodol ar gyfer monitro ac olrhain cynnydd dysgwyr drwy'r rhaglen. Mae athrawon yn y systemau mwyaf effeithiol yn glir ynghylch yr hyn sydd angen ei gofnodi a sut. Caiff gwybodaeth ei chasglu a'i choladu mewn ffordd hylaw a systematig. Mae'r systemau gorau yn defnyddio taflenni cofnodi syml y mae'r holl staff sy'n gysylltiedig yn gallu'u deall a'u defnyddio'n ddiffwdan. Mae cydlynydd Bagloriaeth Cymru wrth graidd systemau o'r fath ac mae'r ysgolion gorau'n defnyddio'r wybodaeth y maent yn ei chasglu i adrodd yn ôl am gynnydd i uwch reolwyr ac arweinwyr bugeiliol, fel penaethiaid blwyddyn, ynghyd ag i'r tîm athrawon. Mae profiad o fonitro ac olrhain cynnydd dysgwyr drwy Fagloriaeth Cymru ôl-16 wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth ddyfeisio systemau ar gyfer dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4. Mewn sawl achos, mae ysgolion yn gwneud defnydd da o staff gweinyddol i gefnogi'r system.

72 Dim ond ychydig o ysgolion yn y cam hwn sydd â systemau effeithiol i sicrhau bod safon y gwaith ar gyfer elfen benodol o Fagloriaeth Cymru yn briodol ar gyfer perfformiad lefel 1 neu lefel 2. Mae rhywfaint o amrywiaeth yn arferion cymedrolwyr

ymweliadol CBAC. Mae rhai cymedrolwyr yn edrych ar sampl o waith dysgwyr ac yn gwirio i sicrhau bod y ffurflenni gofynnol wedi cael eu cwblhau'n gywir. Fodd bynnag, nid yw cymedrolwyr eraill yn gwirio ond er mwyn sicrhau bod y ffurflen wedi cael ei llenwi ac nid ydynt yn craffu ar waith dysgwyr i sicrhau bod asesiadau yn yr ysgol yn drylwyr, yn ddilys ac yn ddibynadwy. Mae CBAC yn gweithio i sicrhau bod cymedroli'n dod yn fwy cyson a thrylwyr.

73 Nid yw lleiafswm o ysgolion eto wedi sefydlu system olrhain i fonitro cynnydd dysgwyr drwy'r rhaglen.

## Pa mor dda y mae ysgolion yn cefnogi dysgwyr?

74 At ei gilydd, mae'r gefnogaeth unigol i ddysgwyr ar Fagloriaeth Cymru yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael cyngor, arweiniad a chefnogaeth defnyddiol cyn dechrau ar y rhaglen. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ysgolion wedi marchnata'r cymhwyster yn effeithiol i ddysgwyr a rhieni, ac wedi cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y rhaglen mewn llyfrynnau arweiniad ar ddewis opsiynau ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 9. Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i ennill Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

75 Mae cefnogaeth unigol bersonol i ddysgwyr ar sail un-i-un yn elfen allweddol o Fagloriaeth Cymru. Mae'r tiwtor personol yn gweithredu fel canolwr rhwng y dysgwyr a galwadau'r cwrs. Fodd bynnag, mae amrywiaeth sylweddol yn y ffordd y mae ysgolion yn trefnu'r system tiwtorial personol yng nghyfnod allweddol 4. Er enghraifft, mewn un ysgol, caiff dysgwyr eu rhannu'n grwpiau hylaw o rhwng 12 ac 16 ac mae eu tiwtor yn eu gweld bob dydd. Dyma drefniant effeithiol ac mae'n sicrhau bod dysgwyr yn cael cefnogaeth dda iawn ar gyfer eu gwaith. I'r gwrthwyneb, mae gan ysgol arall un tiwtor ar gyfer grŵp o 30 o ddysgwyr ac nid yw'r trefniant hwn yn caniatáu i'r tiwtor roi'r gefnogaeth sydd ei hangen.

## Pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr yn cyflwyno Bagloriaeth Cymru?

76 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ymdopi'n dda â chyflwyno Bagloriaeth Cymru. Mae gan Fagloriaeth Cymru le clir mewn cynlluniau strategol ac mae'r broses o'i chyflwyno'n cael ei threfnu'n glir ac yn bwrpasol. Fodd bynnag, hyd yma, dim ond ychydig o ysgolion sydd wedi gosod targedau clir ar gyfer cyrhaeddiad disgyblion yn y cymhwyster.

77 Mae ysgolion eisoes yn cyflawni gwaith sy'n debyg mewn sawl agwedd ar Fagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4. Mae ysgolion yn cyflwyno gofynion statudol fel y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r cwricwlwm sylfaenol. Mae pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ddefnyddiol gan eu bod naill ai'n gallu dod yn gyfryngau ar gyfer rhai gofynion, fel y rheiny sy'n ymwneud â'r medrau allweddol cyfathrebu a chymhwyso rhif, neu gallant weithredu'n gymwysterau dirprwyol, er enghraifft Cymraeg a TG. Mae'r gofynion i addysgu addysg bersonol a chymdeithasol, addysg sy'n gysylltiedig â gwaith ac addysg ac arweiniad gyrfaoedd hefyd yn rhannau hanfodol o Astudiaethau Craidd Bagloriaeth Cymru. Wrth i ysgolion ymdrechu i roi'r fenter Llwybrau Dysgu 14-19 ar waith, yn enwedig yr elfennau Craidd Dysgu, Cefnogaeth Bersonol a Hyfforddwr Dysgu, gallant weld bod Bagloriaeth Cymru yn cynnig mecanwaith ar gyfer gwneud hynny. Mae'r ffactorau hyn yn golygu bod rhoi Bagloriaeth Cymru ar waith yng nghyfnod allweddol 4 yn gymharol syml, yn enwedig lle mae ysgolion wedi'i chyflwyno ar gyfer y garfan gyfan.

78 At ei gilydd, lle mae gan ysgol nifer fawr o ddysgwyr sy'n dilyn Bagloriaeth Cymru, mae gan y pennaeth, uwch reolwyr a'r corff llywodraethol gysylltiad agos â'i chyflwyno. Mewn rhai achosion yng nghamau cynnar ei chyflwyno, mae'r pennaeth yn aelod o'r tîm sy'n rhoi'r rhaglen ar waith ac mae naill ai'n addysgu agwedd ar y cwrs neu'n cymryd cyfrifoldeb am grŵp tiwtor. Mae gan ysgolion llwyddiannus uwch aelod o staff sy'n gyfrifol am gydlynu gwaith y tîm o athrawon sy'n gysylltiedig â chyflwyno Bagloriaeth Cymru. Mae'r tîm yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio, gweithredu, arfarnu ac addasu trefniadau yng ngoleuni eu profiad. Dyma ffactor allweddol wrth ddatblygu gweithredu'r rhaglen newydd hon yn llwyddiannus.

79 Ni fu angen i'r rhan fwyaf o ysgolion newid eu strwythurau a'u gweithdrefnau rheoli presennol i gyflwyno Bagloriaeth Cymru. Yn hytrach, maent wedi'u haddasu i ddarparu am y galwadau newydd. Mae rolau a chyfrifoldebau ar gyfer arwain a rheoli Bagloriaeth Cymru yn glir ac yn effeithiol at ei gilydd, ac yn gweddu'n dda i rolau a chyfrifoldebau eraill yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r ysgolion sy'n addysgu Bagloriaeth Cymru i'r holl ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 yn sylwi bod cyflwyno a threfnu'r rhaglen yn fwy syml na'r ysgolion hynny sy'n ei haddysgu i grwpiau dethol. Mae cynllunio yn llwyddiannus yn gyffredinol pan fo'r garfan gyfan yn cymryd rhan.

80 Mae ysgolion llwyddiannus fel arfer wedi penodi cynorthwyydd gweinyddol amser llawn neu ran-amser i helpu gyda'r baich gweinyddol trwm sy'n disgyn ar athrawon mewn perthynas â'r rhaglen hon. Mae hyn yn caniatáu i athrawon gael eu rhyddhau ar gyfer eu prif rôl, sef cynllunio ac addysgu'n effeithiol.

81 Lle bynnag y bo modd, mae ysgolion wedi gwneud defnydd da o'u profiadau o roi'r cymhwyster ar waith yn y cyfnod ôl-16. Yn yr achosion hyn, mae ganddynt ddealltwriaeth sicr o alwadau'r rhaglen ac maent eisoes wedi cyflwyno'r gweithdrefnau sydd eu hangen i reoli'r rhaglen yn llwyddiannus. Yn y lleiafrif o achosion lle mae'r ysgolion yn cyflwyno Bagloriaeth Cymru am y tro cyntaf, mae'n anochel bod rhai problemau cychwynnol. Er enghraifft, mewn un ysgol, roedd athrawon a oedd yn gyfrifol am y rhaglen yn cynllunio'u gwaith ar gyfer y cymhwyster lefel Sylfaen, tra bod rhai aelodau o'r uwch dîm rheoli'n credu bod disgyblion yn gweithio tuag at y cymhwyster lefel Canolradd.

82 Mewn ychydig o ysgolion, nid oes cyfarfodydd cynllunio ac arfarnu rheolaidd, wedi'u hamserlennu, ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Mae'r diffyg cydlynu ac arfarnu systematig hwn wedi cael effaith andwyol ar yr ansawdd.

83 Mae ysgolion peilot yn cael cyllid[5] ar gyfer pob dysgwr sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer y cymhwyster yng nghyfnod allweddol 4. Caiff yr arian hwn ei ddefnyddio'n dda yn gyffredinol i dalu am gefnogaeth weinyddol, deunydd ysgrifennu ar gyfer disgyblion, ymweliadau, a chostau ychwanegol profiad gwaith a gwaith cymunedol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion sydd wedi arfarnu'r costau eraill sydd ynghlwm wrth gyflwyno Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 yn fanwl, fel costau staffio. Cred y rhan fwyaf o ysgolion bod dysgwyr yn cael llawer iawn o werth oddi wrth Fagloriaeth Cymru, ond maent yn pryderu ynghylch eu gallu i gynnal y ddarpariaeth pan fydd y cyllid ychwanegol yn dod i ben.

84 Y ffactorau llwyddiant allweddol wrth roi Bagloriaeth Cymru ar waith yng nghyfnod allweddol 4 yw:

- sicrhau arweinyddiaeth gref a phwrpasol gan uwch reolwyr, gan gynnwys eu cysylltiad ar ryw lefel â'i chyflwyno;
- defnyddio Bagloriaeth Cymru fel mecanwaith ar gyfer cyflwyno'r gofynion statudol a'r Craidd Dysgu 14-19 yng nghyfnod allweddol 4;
- hyfforddi tîm trefnus i gyflwyno'r rhaglen;
- cyflwyno systemau effeithlon a hylaw ar gyfer olrhain a monitro profiadau a chynnydd dysgwyr; a
- chynllunio system diwtorial effeithiol.

[5] Mae ysgolion yn cael cymorth ariannol wedi'i seilio ar fformiwla pan fyddant yn cymryd rhan yn y rhaglen, sy'n cyfateb i rhyw £165 ar gyfer pob dysgwyr ym mhob blwyddyn y maent yn cymryd rhan yn y peilot.

## Pa mor dda y mae dysgwyr yn ei wneud?

85 Mae Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 yng ngham cynnar ei datblygiad ac ni fydd y grŵp cyntaf o ddysgwyr yn cwblhau'r cwrs hyd nes diwedd blwyddyn academaidd 2007-2008. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ganlyniadau i ddangos cyraeddiadau dysgwyr.

86 Yn y dosbarthiadau yr arsylwyd arnynt yn ystod yr ymweliadau ag ysgolion, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni safonau da yn gyffredinol yn y gwaith y maent yn ei gynhyrchu. Maent yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau allweddol cyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh ar gyfer eu lefel astudio. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ystyried bod y gwaith yn ddiddorol ac mae eu hathrawon o'r farn bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau dysgwyr tuag at waith a'u cyfraddau presenoldeb.

87 Drwy eu hastudiaeth o Gymru, Ewrop a'r Byd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ennill dealltwriaeth dda o faterion cyfoes wrth iddynt effeithio ar Gymru ac ar wledydd eraill. Hefyd, yn yr elfennau gwahanol o addysg bersonol a chymdeithasol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth da ac yn datblygu medrau addas. Mewn addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu'r medrau sydd eu hangen i gyflawni gofynion yr elfen o weithio gyda chyflogwyr, yn arbennig drwy gwblhau eu lleoliad profiad gwaith. Drwy'r gweithgaredd menter tîm, mae llawer o ddysgwyr hefyd yn cael gwybodaeth a medrau defnyddiol am fusnes a menter. Drwy gwblhau eu gweithgaredd menter, maent hefyd yn datblygu'r medrau ehangach gweithio gydag eraill a datrys problemau. Fodd bynnag, mewn lleiafswm o ysgolion, nid yw gwaith dysgwyr yn y gweithgaredd menter tîm cystal â'u gwaith gyda chyflogwyr. Mewn ychydig o achosion, nid yw dysgwyr yn gweithio'n dda fel tîm ac nid ydynt yn cyflawni nodau'r gweithgaredd.

88 Mae'r dysgwyr hynny sydd wedi cwblhau eu hymchwiliad unigol wedi cynhyrchu gwaith o safon dda. Maent wedi cynhyrchu gwaith diddorol, yn enwedig lle maent yn cymharu mater yng Nghymru â mater tebyg mewn gwlad wahanol. Er nad yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio gwaith cwrs sydd wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer arholiadau eraill, mae rhai ymchwiliadau wedi'u seilio'n rhy agos ar waith cwrs a gynhyrchwyd mewn pynciau TGAU fel gwyddoniaeth.

## Atodiad 1: Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Mae Bagloriaeth Cymru'n cynnwys dwy brif ran, sef **Astudiaethau Craidd** ac **Opsiynau**.

### Astudiaethau Craidd

Mae gan Astudiaethau Craidd bedair cydran:

**1** y chwe **medr allweddol:**

- cyfathrebu;
- cymhwyso rhif;
- technoleg gwybodaeth;
- gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun;
- gweithio gydag eraill; a
- datrys problemau.

Rhaid i ddysgwyr ddarparu portffolio o dystiolaeth i'w asesu ar gyfer medrau allweddol.

**2 Cymru, Ewrop a'r Byd**

- gwleidyddiaeth;
- materion cymdeithasol;
- materion economaidd a thechnolegol; a
- materion diwylliannol.

Mae'n rhaid i ddysgwyr hefyd astudio modiwl iaith fel rhan o'r gydran hon.

**3 Addysg sy'n gysylltiedig â gwaith**

- gweithio gyda chyflogwr; a
- gweithgaredd menter tîm.

**4 Addysg bersonol a chymdeithasol**

- perthnasoedd cadarnhaol;

- iechyd a lles emosiynol;
- dinasyddiaeth weithgar;
- datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a
- chyfranogiad cymunedol.

Rhaid i ddysgwyr hefyd gwblhau **Ymchwiliad Unigol** ar lefel briodol. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt gyflawni prosiect ymchwil i faes o ddiddordeb o'r Astudiaethau Craidd neu'r Opsiynau a datblygu medrau casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth.

Gall dysgwyr gael **Tystysgrif Graidd** am gyflawni gofynion yr Astudiaethau Craidd.

## Opsiynau

Yr ail ran yw'r **Opsiynau** sy'n cynnwys cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau allanol y cymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru mewn TGAU, Safon Uwch, CGC, BTEC neu gyfwerth.

## Cymwysterau

Ar y cyd, mae'r **Astudiaethau Craidd** a'r **Opsiynau'n** llunio **Diploma Bagloriaeth Cymru**. Mae Diploma Bagloriaeth Cymru wedi'i gymeradwyo'n genedlaethol a chaiff ei gynnig ar Lefel Sylfaen, Canolradd neu Uwch.

Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi'i gynllunio i weddu i ofynion statudol yng nghyfnod allweddol 4 ac i helpu dysgwyr i ddatblygu, fel y bo'n briodol, i'r diploma canolradd neu uwch ac i astudiaethau ôl-16.

Bydd **Diploma Sylfaen Lefel 1 Bagloriaeth Cymru** yn cael ei ddyrannu i ymgeiswyr sy'n cael y Dystysgrif Graidd Sylfaen, ynghyd â CGC lefel 1 neu gyfwerth, neu o leiaf pedair TGAU graddau D i G, neu eu cyfwerth. Mae'r Dystysgrif Graidd Sylfaen yn gofyn bod dysgwyr yn:

- ennill ardystiad medrau allweddol ym mhedwar o'r chwe maes yn lefel 1, gan gynnwys un o blith cyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh;
- ennill lefel 1 yn yr Ymchwiliad Unigol; ac
- yn dangos eu bod wedi cwblhau gofynion cwricwlaidd y cydrannau Astudiaethau Craidd yn foddhaol.

Bydd **Diploma Canolradd Lefel 2 Bagloriaeth Cymru** yn cael ei ddyrannu i ymgeiswyr sy'n cael y Dystysgrif Graidd Ganolradd, ynghyd â CGC lefel 2 neu gyfwerth, neu o leiaf pedair TGAU graddau A* i C, neu eu cyfwerth. Mae'r Dystysgrif Graidd Ganolradd yn gofyn bod dysgwyr yn:

- ennill ardystiad mewn pedwar medr allweddol, dau ar lefel 3 a dau ar lefel 1, gan gynnwys cyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh. Mae'n rhaid cael tystiolaeth eu bod wedi dilyn pob un o'r chwe medr allweddol;

- ennill lefel 2 ar gyfer ymchwiliad unigol; ac

- yn dangos eu bod wedi cwblhau gofynion cwricwlaidd y cydrannau Astudiaethau Craidd yn foddhaol.

Gall dysgwyr nad ydynt yn cwblhau'r holl ofynion ar gyfer dyfarniad Diploma llawn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru er hynny gyflawni cymwysterau cydnabyddedig yn eu hastudiaethau dewisol ac yn y Cymwysterau Medrau Allweddol.

**Crynodeb o ofynion Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar bob lefel**

| | Astudiaethau Craidd | Opsiynau |
|---|---|---|
| **Diploma Sylfaen Bagloriaeth Cymru**<br>(Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefel 1)<br>Ar gael cyn-16 ac ôl-16 | **Tystysgrif Graidd ar lefel 1**<br>• Pedwar Medr Allweddol ar lefel 1, y mae'n rhaid iddynt gynnwys un o blith cyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh, a thystiolaeth eu bod wedi dilyn pob un o'r chwe Medr Allweddol<br>• Adroddiadau gwirio ac arfarnu ar gyfer Gweithio gyda Chyflogwr, gweithgaredd Menter Tîm a Chyfranogiad Cymunedol<br>• Ymchwiliad Unigol ar lefel 1<br>• Gofynion penodedig y cwricwlwm | Pedair gradd D-G mewn TGAU neu gyfwerth, e.e. CGC lefel 1, Diploma Rhagarweiniol BTEC |
| **Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru**<br>(Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefel 2)<br>Ar gael cyn-16 ac ôl-16 | **Tystysgrif Graidd ar lefel 2**<br>• Pedwar Medr Allweddol, gan gynnwys cyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh. Rhaid cyflawni o leiaf dau ar lefel 2 a dau ar lefel 1. Rhaid bod tystiolaeth o ddilyn pob un o'r chwe Medr Allweddol.<br>• Adroddiadau gwirio ac arfarnu ar gyfer Gweithio gyda Chyflogwr, gweithgaredd Menter Tîm a Chyfranogiad Cymunedol<br>• Ymchwiliad Unigol ar lefel 2<br>• Gofynion penodedig y cwricwlwm | Pedair gradd A*-C mewn TGAU neu gyfwerth, e.e. CGC lefel 2, Cyntaf BTEC ar lefel pasio (6 uned) |
| **Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru**<br>(Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefel 3)<br>Ar gael ôl-16 | **Tystysgrif Graidd ar lefel 3**<br>• Tri Medr Allweddol ar lefel 3, y mae'n rhaid i un ohonynt fod o blith cyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh, ynghyd â'r Medrau Allweddol eraill ar lefel 2<br>• Adroddiadau gwirio ac arfarnu ar gyfer Gweithio gyda Chyflogwr, gweithgaredd Menter Tîm a Chyfranogiad Cymunedol<br>• Ymchwiliad Unigol ar lefel 3<br>• Gofynion penodedig y cwricwlwm | Dwy Safon Uwch TAG graddau A-E neu gyfwerth, e.e. CGC lefel 3, Tystysgrif Genedlaethol BTEC (12 uned) |

## Atodiad 2: Craidd Dysgu'r Llwybrau Dysgu 14-19 yng nghyfnod allweddol 4

| Agwedd | Gofyniad gofynnol | Estyniad |
|---|---|---|
| **Medrau** | | |
| **Medrau Allweddol** | Dylai pob myfyriwr 14-16 mlwydd oed ddatblygu pob un o'r chwe Medr Allweddol (neu ddilyn rhaglenni lefel mynediad/cyn-mynediad ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio islaw Lefel 1 yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC) ar y lefel sy'n briodol i'w rhaglenni. | |
| **Medrau'r Iaith Gymraeg** | Dylid addysgu Cymraeg/Cymraeg Ail Iaith i bob myfyriwr 14-16 mlwydd oed fel rhan o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. | |
| **Medrau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwaith** | Dylai pob dysgwr 14-19 mlwydd oed ddatblygu medrau sy'n berthnasol i'r gweithle. Mae fframweithiau ACCAC ar gyfer addysg ac arweiniad gyrfaoedd yn gosod yr hyn sy'n ofynnol, gan gynnwys entrepreneuriaeth, ar gyfer dysgwyr amser llawn yn yr ysgol. | |
| **Gwybodaeth a Dealltwriaeth** | | |
| **Cymru, Ewrop a'r Byd** | Dylid addysgu'r Cwricwlwm Cymreig/Cymru, Ewrop a'r Byd i bob myfyriwr 14-16 mlwydd oed fel rhan o'r gofynion diwygiedig ar gyfer cyfnod allweddol 4. | |
| **Materion personol, cymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd** | Dylid addysgu materion personol, cymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd i bob myfyriwr 14-16 mlwydd oed ar sail fframwaith ACCAC. | |
| **Addysg/arweiniad gyrfaoedd** | Mae'n ofyniad statudol bod ysgolion yng Nghymru yn rhoi rhaglen o addysg ac arweiniad gyrfaoedd i'w holl ddysgwyr 13-19 mlwydd oed amser llawn a rhan-amser. Mae fframwaith gyrfaoedd ACCAC yn rhoi arweiniad clir ar yr hyn a ddylai gael ei ddarparu. | |

| | | |
|---|---|---|
| **Agweddau a gwerthoedd** | | |
| **Parch i chi'ch hun, i eraill a thuag at amrywiaeth Cyfrifoldeb am ddatblygiad personol a chymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd** | Dylai datblygiad cynyddol y gwerthoedd hyn fod yn ofyniad ar gyfer pob dysgwr 14-19 mlwydd oed. Maent yn hanfodol i ddatblygiad y person cyfan. Byddai angen i ddarparwyr dysgu bennu'r mecanweithiau a fyddai'n galluogi dysgwyr unigol i integreiddio eu profiadau dysgu a gosod nodau ar gyfer datblygiad personol. | |
| **Profiadau cyffredin** | | |
| **Profiad sy'n canolbwyntio ar waith** | Mae profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn ofyniad i bob dysgwr 14-19 mlwydd oed. I ddysgwyr mewn ysgolion a cholegau, dylai'r isafbwynt gofynnol fod yn seiliedig ar fframwaith ACCAC ar gyfer addysg sy'n gysylltiedig â gwaith. | Dylai llawer o ddysgwyr gael cyfleoedd am brofiad perthnasol, estynedig, sy'n canolbwyntio ar waith uwchlaw'r isafbwynt sydd ei angen ar gyfer addysg sy'n gysylltiedig â gwaith. Gallai hyn gynnwys cydnabyddiaeth o gyflogaeth ran-amser. |
| **Cyfleoedd am gyfranogiad cymdeithasol** | Dylai'r rhain fod yn weithgareddau gwirfoddol felly ni chânt eu cynnwys fel gofynion gofynnol. | Dylai pob dysgwr 14-19 oed gael mynediad i hyn fel estyniad. |
| **Profiadau diwylliannol/ chwaraeon/esthetig/ creadigol** | Dylid addysgu addysg gorfforol i bob myfyriwr 14-16 mlwydd oed fel rhan o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. | Dylai pob dysgwr 14-19 oed gael mynediad i brofiadau diwylliannol/chwaraeon/ esthetig/creadigol. |